Ysgol Bro Gwaun
Pennaeth/Headteacher: Alana Finn
Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268
E-bost/E-mail: Swyddfa@ysgolbrogwaun.com

**Annwyl Rhieni a Gofalwyr,**

Wrth i ni ddod i ddiwedd tymor prysur a llwyddiannus, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus. Mae eich partneriaeth â'r ysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod ein dysgwyr yn ffynnu, ac rydym yn wirioneddol ddiolchgar am yr anogaeth rydych yn ei roi gartref.

Mae'r tymor hwn wedi bod yn llawn o gyflawniadau ac o brofiadau cyfoethog i'n disgyblion. Rydym wedi canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu drwy strategaethau megis **tasgau 'Gwnewch Nawr', adborth effeithiol a modelu**, ynghyd â pharatoi dysgwyr ar gyfer **arholiadau**. Rydym wedi derbyn adborth adeiladol gan yr **Awdurdod Lleol** mewn meysydd allweddol gan gynnwys **Mathemateg, Cymraeg, Gwyddoniaeth, y Ganolfan Adnoddau Dysgu (LRC), a Diogelu**, a fydd yn ein helpu i barhau i gryfhau ein darpariaeth.

Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, mae disgyblion wedi mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys **prosiectau cyfoethogi'r cwricwlwm creadigol**, **gweithdai Cymraeg**, **digwyddiadau pontio**, **gweithdai graffiti**, ac ymweliad i'r llong y **Galleon**. Roedd cynhyrchiad yr ysgol, **Rhyfeddfyd – Wonderland**, yn llwyddiant ysgubol ac yn dangos y talent a'r cydweithio anhygoel ymhlith ein dysgwyr a'n staff. Mae ein hymrwymiad i les wedi bod yn amlwg drwy fentrau megis y **Cynllun Mentora Cyfoedion** a nifer o ddigwyddiadau Celfyddydau Mynegiannol a chwaraeon, i gyd wedi'u cynllunio i hyrwyddo gwydnwch a gwaith tîm. Mae dathliadau fel **Diwrnod Shwmae** a'n **cystadlaethau Tŷ newydd** wedi cryfhau ein hymdeimlad o gymuned a pherthyn.

Rydym hefyd wedi gweithio'n galed i gryfhau partneriaethau cartref-ysgol drwy **Nosweithiau Helpu o Gartref**, cyfarfodydd rhieni, a lansiad ein **cylchlythyr newydd i rieni**. Mae'r camau hyn yn sicrhau bod cyfathrebu'n glir ac yn gefnogol.

Hoffwn estyn fy niolch diffuant i'n staff ymroddedig, y mae eu proffesiynoldeb a'u creadigrwydd wedi gwneud yr holl lwyddiannau hyn yn bosibl. Mae eu hymrwymiad i addysgu o ansawdd uchel, gofal bugeiliol, a gweithgareddau cyfoethogi yn sicrhau bod gan bob plentyn y cyfle i ffynnu.

Wrth edrych ymlaen, bydd ein blaenoriaethau ar gyfer y tymor nesaf yn cynnwys parhau i godi safonau**, gwella presenoldeb** a phrydlondeb, ymgorffori ein **polisi Ymddygiad ar gyfer Dysgu**, a pharatoi dysgwyr ar gyfer asesiadau sydd ar y gorwel.

**Ym mis Ionawr, bydd y Tîm Arweinyddiaeth Uwch yn cynnal Noson Ymgysylltu â rieni i drafod ein Cynllun Gwella Ysgol a meysydd datblygu allweddol. Bydd manylion pellach yn dilyn yn fuan, a gobeithiwn y byddwch yn ymuno â ni ar gyfer y sgwrs bwysig hon.**

Ysgol Bro Gwaun
Pennaeth/Headteacher: Alana Finn
Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268
E-bost/E-mail: Swyddfa@ysgolbrogwaun.com

---

**Dyddiadau Allweddol ar gyfer y Tymor Nesaf**

- Dydd Llun Ionawr 5ed – HMS
- Dydd Iau Ionawr 8fed – Canlyniadau TGAU
- Dydd Iau Ionawr 15fed – Arholiadau Blwyddyn 9
- Dydd Mercher Ionawr 21ain – Ffrindiau Bro Gwaun 5y.p
- Dydd Llun Ionawr 26ain – Arholiadau Blwyddyn 10
- Dydd Mercher Ionawr 28ain – Noson Rieni Blwyddyn 11
- Dydd Mercher Chwefror 4ydd – Noson Rieni Blwyddyn 8
- Dydd Mawrth Chwefror 10fed – Noson sgiliau adolygu blwyddyn 10
- 16eg-20fed Chwefror – Hanner tymor

---

Diolch unwaith eto am eich ymddiriedaeth a'ch cefnogaeth. Dymunaf wyliau heddychlon a llawen i chi gyd, ac edrychaf ymlaen at groesawu pawb yn ôl ar gyfer tymor llwyddiannus arall.

**Yn gywir,**
Alana Finn
Pennaeth